**Y Pwyllgor Deisebau**

**PET(3)-05-08 (p2): 10 Ebrill 2008**

**P-03-103 Y Ddarpariaeth o Addysg Cyfrwng Cymraeg yn Ne-ddwyrain Cymru**

**Geiriad y Ddeiseb**

'Deiseb i wella Addysg Cyfrwng Cymraeg

Yr ydym ni, etholwyr siroedd Mynwy, Casnewydd a Chaerffili, yn deisebu'r Cynulliad a'r Cynghorau i sefydlu Ysgol Gyfun Gyfrwng Gymraeg newydd i wasanaethu'r siroedd.

Mae angen brys am ddarpariaeth addysg uwchradd yn yr ardal gan fod plant ar hyn o bryd yn cael eu gorfodi i oddef amseroedd teithio annerbyniol neu adael addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl'.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emma Hill, Cadeirydd Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) Sir Fynwy.

Mae Ms Hill wedi darparu llythyr eglurhaol yn amlinellu'r cefndir i'w deiseb mewn mwy o fanylder.  Mae copi o hwn i'w weld fel atodiad PET(3) 03-08 Papur 4A. Yn gryno mae'n nodi:

Bod yr holl blant sy'n derbyn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd a Sir Fynwy yn cael eu cludo mewn bysiau i Ysgol Gwynllyw yn Nhor-faen.

Nad oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel gyfun yn Sir Fynwy

Bod rhai plant yn teithio am hyd at ddwy awr bob ffordd er mwyn cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae'r deisebwyr eisiau'r 'Cynulliad Cenedlaethol' gynorthwyo 'Awdurdodau Sir Fynwy' i ddatrys y broblem hon.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyried i'r ddeiseb am y tro cyntaf ar 6 Mawrth 2008.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Ebrill 2008**